Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Practis Deintyddol My Dentist, Trefyclo, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
## Dyddiad yr arolygiad: 13 Rhagfyr 2023
## Dyddiad cyhoeddi: 14 Mawrth 2024



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad

ISBN Digidol 978-1-83577-822-7
© Hawlfraint y Goron 2024

Gwelsom fod Practis Deintyddol MyDentist, Trefyclo yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion.

Gwelsom y staff yn trin cleifion mewn ffordd gwrtais, gyfeillgar a phroffesiynol wyneb yn wyneb a thros y ffôn. Gwelsom dîm sefydledig a oedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Nodwyd gennym fod y practis mewn cyflwr da ac yn drefnus, bod y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn ‘dda’ neu'n ‘dda iawn’.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol My Dentist, Trefyclo, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 13 Rhagfyr 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod Practis Deintyddol MyDentist, Trefyclo yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion.

Gwelsom y staff yn trin cleifion mewn ffordd gwrtais, gyfeillgar a phroffesiynol wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'dda' neu'n 'dda iawn'.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Ystyried opsiynau i wella preifatrwydd y cleifion yn ardal y dderbynfa
- Adolygu'r weithdrefn gwyno ac ychwanegu manylion ati.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd amgylchedd y practis yn olau, yn lân ac mewn cyflwr da
- Roedd mesurau ar waith i sicrhau bod y practis yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd
- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol:

*"Staff tosturiol, cyfeillgar a gwybodus."*

*"Gwasanaeth da iawn."*

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

Nodwyd gennym fod y practis mewn cyflwr da ac yn drefnus, bod y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben. Gwelsom dystiolaeth fod buddsoddiadau a gwelliannau parhaus yn cael eu gwneud.

Gwelsom fod y staff yn dilyn gweithdrefnau clir er mwyn sicrhau bod offer deintyddol yn cael ei ddihalogi, bod cyfarpar meddygol yn cael ei wirio a'i brofi'n rheolaidd a bod gweithdrefnau glanhau yn cael eu dilyn.

Roedd pob ardal gyhoeddus yn ymddangos yn lân ac yn daclus ac nid oedd peryglon amlwg.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Adleoli'r prosesydd pelydr-X deintyddol
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o weithdrefnau diogelu cenedlaethol Cymru Gyfan.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion
- Roedd archwiliadau yn cael eu cynnal i fonitro a gwella'r gwasanaeth a ddarperir
- Gwelwyd bod y cyfarpar clinigol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

Gwnaethom nodi bod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau rheoli clir. Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am ddau bractis a gwelwyd ei fod yn ymrwymedig i ddarparu safon uchel o ofal.

Gwelsom dîm sefydledig a oedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal i rannu gwybodaeth, a bod staff yn cael arfarniadau rheolaidd.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Roedd cofnodion y staff a chofnodion cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn gyflawn ac yn cael eu rheoli'n dda
- Roedd y practis yn gwneud defnydd effeithiol o gymorth gan ei grŵp corfforaethol.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r gwasanaeth gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r gwasanaeth gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i wasanaethau ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

